Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 121/2026

Dyddiad cyhoeddi: 11/11/2026

Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt: Adroddiad 2025 ar gyfer Cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-80853-697-7

Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt: Adroddiad 2025 ar gyfer Cymru

Awduron: Rebecca Cox, Ymchwil twristiaeth (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Cox, R.,Hughes, S. 2026. Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt: Adroddiad 2025 ar gyfer Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 121/2026

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil i Dwristiaeth

Menter, Cysylltedd ac Ynni

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

tourismresearch@gov.wales

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau 2

Rhestr o'r ffigurau 3

1. Cyflwyniad a chefndir 4

2. Methodoleg 5

Gwledydd panel craidd 5

Dewis a phwysoli 6

Rheoli ansawdd y gwaith maes 6

Cynnal a chadw'r paneli yn gyffredinol a rheoli ansawdd y paneli 7

Cenhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd 7

Data a chyfrifiadau'r Mynegai 8

Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn gyffredinol 8

Cyfarwyddineb a ffafrioldeb 8

Dimensiynau a phriodoleddau 9

Ystyriaethau data 12

3. Canfyddiadau 14

Safle Cyffredinol 14

Enw da Cymru yn y Gwledydd Panel Craidd 14

Ffafrioldeb 17

Cyfarwyddineb 20

Perfformiad dimensiynau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd 22

Dimensiynau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn ôl gwlad 26

4. Casgliadau 28

Rhestr o dablau

Tabl 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, 20 o wledydd panel craidd yn ôl rhanbarth ...6
Tabl 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, 50 o genhedloedd a sgoriwyd ...7
Tabl 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, amlinelliad o'r dimensiynau ...9
Tabl 4: trosi o raddfa Likert 7 pwynt i sgôr allan o 100 ...11
Tabl 5: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, safleoedd a sgoriau cyffredinol Cymru dros amser ...14
Tabl 7: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2025, sgôr a safle Cymru o ran cyfarwyddineb dros amser ...21
Tabl 8: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, sgoriau dimensiwn ar gyfer Cymru yn ôl gwlad ...27
Tabl 9: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, safleoedd dimensiwn ar gyfer Cymru yn ôl gwlad ...28

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, safle cyffredinol Cymru yn ôl gwledydd panel craidd 16
Ffigur 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, sgôr cyffredinol Cymru yn ôl gwlad banel graidd 17
Ffigur 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, sgôr a safle Cymru o ran ffafrioldeb ar draws yr 20 o wledydd panel craidd....18
Ffigur 4: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, safle Cymru o ran ffafrioldeb ar draws yr 20 o wledydd panel craidd....20
Ffigur 5: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, cyfarwyddineb â Chymru yn ôl gwlad banel....21
Ffigur 6: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, sgoriau dimensiynau a chyffredinol y Mynegai ar gyfer Cymru....23
Ffigur 7: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2025, sgôr a safle cyffredinol Cymru yn y Mynegai 24
Ffigur 8: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, safleoedd cyffredinol Cymru ar gyfer dimensiynau ac yn y Mynegai yn gyffredinol 25
Ffigur 9: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2025, safleoedd Cymru ar gyfer dimensiynau ac yn y Mynegai yn gyffredinol 26

1. Cyflwyniad a chefndir

Mae Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt (a elwir yn 'Mynegai' o hyn ymlaen) yn arolwg panel byd-eang ar-lein blynyddol sy'n archwilio delwedd 50 o genhedloedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau tanysgrifiad Llywodraeth Cymru i Fynegai 2025 er mwyn mesur enw da Cymru yn rhyngwladol ac yn ddomestig.

Dechreuodd y Mynegai yn flynyddol yn 2005 a'i nod yw mesur delweddau gwledydd y byd, ac olrhain eu proffiliau wrth iddynt godi neu gwympo. Mae'r modd y caiff gwlad ei gweld ar lefel ryngwladol yn gallu effeithio ar ei chysylltiadau â gwledydd eraill ac ar ei hymdrechion ym maes busnes, masnach a thwristiaeth. Gan gydnabod hyn, mae'r Mynegai yn ganolog i ddeall gweledigaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru i helpu i osod Cymru mewn sefyllfa ar gyfer heriau'r dyfodol; sef: codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol; tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad; a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r Mynegai'n rhoi cipolwg ar sut mae Cymru'n cael ei gweld yn fyd-eang ac yn cefnogi'r gwaith o ganfod cyfleoedd i gryfhau Cymru fel brand rhyngwladol.

Yn 2025, cynhaliwyd y Mynegai mewn 20 o wledydd incwm uchel a chanolig sy'n chwarae rhan bwysig ac amrywiol mewn cysylltiadau rhyngwladol, masnach a llif gweithgareddau busnes, diwylliannol a thwristiaeth. Nod yr arolwg yw darparu cynrychiolaeth ranbarthol eang
yn ogystal â chydbwysedd rhwng gwledydd incwm uchel ac incwm canolig.

Mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu barn a safbwyntiau'r boblogaeth ar-lein yn yr 20 o wledydd panel craidd hyn. Ei nod yw asesu'r ddelwedd a'r enw da cyffredinol sydd gan wlad ar draws chwe dimensiwn o gymhwysedd cenedlaethol. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion', 'Llywodraethu', 'Diwylliant', 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.

Mewn cyd-destun byd-eang cyfnewidiol, sy'n cynnwys yr ansicrwydd sy'n deillio o effeithiau digwyddiadau byd-eang, mae angen deall yn well sut y caiff Cymru ei gweld gan wledydd eraill. Mae pwysoliad chwe dimensiwn cymhwysedd cenedlaethol y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn gyfartal. Yn unigol, gall y safleoedd a'r sgoriau ar gyfer Cymru gyfleu negeseuon gwahanol am enw da Cymru. O'u darllen gyda'i gilydd, mae'r safleoedd a'r sgoriau yn rhoi syniad cyffredinol o'r enw da sydd gan wlad:

- mae'r **safle** yn rhoi gwybodaeth am enw da gwlad o'i chymharu â gwledydd eraill, a gall newid dros amser mewn perthynas â pherfformiad gwledydd eraill
- gellir ystyried y **sgôr** fel dangosydd o enw da gwlad, y gellir ei ddefnyddio i olrhain enw da gwlad dros amser

Mae data'r Mynegai yn rhoi cipolwg ar agweddau pobl tuag at Gymru a beth yw eu canfyddiadau ohoni. Gall data agweddol fel hyn gryfhau dealltwriaeth o sut mae Cymru'n cael ei gweld yn rhyngwladol, gan helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o enw da Cymru, yn fyd-eang ac yn fewnol.

Nid gwerthusiad o Lywodraeth Cymru nac o unrhyw asiantaeth gyflawni/cangen o weithgarwch y llywodraeth yw'r Mynegai, na dangosydd o berfformiad y llywodraeth chwaith. Arolwg byr am Gymru, yn ei ystyr ehangaf, yw'r Mynegai. Caiff rhagor o fanylion am ystyriaethau a chyfyngiadau data sy'n ymwneud â'r ymchwil eu darparu yn yr adran Methodoleg.

2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r dull methodolegol a'r gweithdrefnau rheoli ansawdd a fabwysiadwyd gan Anholt & Co ar gyfer arolwg Mynegai 2025. Er mwyn sicrhau dilyniant â thonnau blaenorol y Mynegai, roedd Anholt & Co wedi comisiynu Ipsos Observer i gynnal y gwaith maes o 2024.

Gwledydd panel craidd

Yn 2025, roedd tua 40,000 o ymatebwyr o 20 o wledydd panel craidd wedi cymryd rhan yn yr arolwg. Cafodd yr 20 o wledydd panel craidd eu dewis i ddarparu cydbwysedd rhanbarthol a chymysgedd o wledydd ag incwm uchel ac incwm canolig, o ystyried y rôl gynyddol y mae cenhedloedd datblygol yn ei chwarae yn y byd. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng Gorffennaf ac Awst 2025 ar gyfer pob un o'r 20 o wledydd panel craidd. Mae'r 20 o wledydd panel craidd yn 2025 wedi'u rhestru isod ac roeddent yr un rhai ag ym mlynyddoedd blaenorol y Mynegai.

Tabl 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, 20 o wledydd panel craidd yn ôl rhanbarth

Rhanbarth	Gwledydd
Gorllewin Ewrop / Gogledd America	Canada, Unol Daleithiau America, Y Deyrnas Unedig, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Eidal, Sweden
Canol / Dwyrain Ewrop	Gwlad Pwyl, Rwsia, Twrci
Asia a'r Môr Tawel	Japan, Tsieina, India, De Korea, Awstralia
America Ladin	Yr Ariannin, Brasil, Mecsico
Y Dwyrain Canol / Affrica	Saudi Arabia, De Affrica

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2025

Dewis a phwysoli

Ar sail y paramedrau diweddaraf ar gyfer y boblogaeth ar-lein ym mhob gwlad, cafodd fframwaith y sampl ym mhob gwlad ei bwysoli er mwyn adlewyrchu prif nodweddion demograffig poblogaeth ar-lein y wlad honno yn 2025 - nodweddion megis oed, rhywedd ac addysg. At hynny, yn yr Unol Daleithiau, y Deyrnas Unedig, De Affrica, India a Brasil, cafodd hil a/neu ethnigrwydd eu defnyddio i gydbwyso'r sampl. Cafodd y pwysoliad ar gyfer pob gwlad ei gyfrifo gan adran fewnol Ipsos ar gyfer samplu ac ystadegau. Er mwyn sicrhau bod pob gwlad yn cael ei thrin yn gyfartal yn y cyfartaledd byd-eang, roedd pwysoliad 'un wlad, un bleidlais' wedi cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo cyfartaledd cyfunol y wlad, gan fod meintiau'r samplau a gafwyd yn amrywio ychydig ar draws gwledydd yr arolwg.

Cafodd paneli ar-lein mawr a oedd wedi'u recriwtio ymlaen llaw ac a oedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd eu defnyddio ar gyfer arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025. Dilynwyd gweithdrefnau rheoli ansawdd, megis dilysu manylion adnabod ymatebwyr yn aml. Gan ddefnyddio ystadegau ynghylch y boblogaeth ar-lein ym mhob un o'r gwledydd panel craidd, cafodd fframwaith y sampl ym mhob gwlad ei haenu gan chwe chell sampl: dynion 18-34 oed, 35-54 oed, a 55+ oed, a menywod 18-34 oed, 35-54 oed, a 55+ oed. Ar gyfer pob cell, cafodd hapsamplau atblygedig eu llunio mewn modd cymesur a chafodd gwahoddiadau eu hanfon drwy e-bost i wahodd panelwyr i gymryd rhan yn yr arolwg.

Rheoli ansawdd y gwaith maes

Caiff yr arolygon ar-lein eu hunanweinyddu, felly mae'r risg y gallai ymatebwyr wneud camgymeriadau neu ffugio gwybodaeth yn uwch yn achos yr arolygon hynny nag yn achos arolygon dros y ffôn neu wyneb yn wyneb a gaiff eu gweinyddu gan gyfwelwyr sydd wedi'u hyfforddi. Er mwyn helpu i leihau'r risg honno, cynhaliodd Ipsos brosesau dilysu a glanhau data yn rhan o'i broses ar gyfer rheoli ansawdd yr arolwg. Cafodd "gwibwyr" (ymatebwyr

sy'n cwblhau'r arolwg mewn amser afresymol o gyflym) eu tynnu o'r sampl, yn ogystal ag ymatebwyr sy'n ymgymryd â "llinellau syth" (clicio drwy arolwg gan roi'r un ateb i bob eitem). Cafodd yr holiaduron gan ymatebwyr a oedd yn euog o wneud hynny eu tynnu allan o'r ffeil ddata a chafodd panelwyr eraill eu hychwanegu yn eu lle. At hynny, cafodd mesurau diogelwch eu rhoi ar waith ar lefel y panel, gan gynnwys dilysu cyfeiriadau IP, canfod botiau, a sicrhau nad yw'r un ymatebwyr yn ymateb fwy nag unwaith.

Cynnal a chadw'r paneli yn gyffredinol a rheoli ansawdd y paneli

Caiff arolwg y Mynegai ei gynnal ar-lein. Ar gyfer Mynegai 2025, fel ym mhob blwyddyn arall, cynhaliwyd prosesau dilysu a glanhau llym at ddibenion rheoli ansawdd paneli ar-lein. Roedd y prosesau hynny'n cynnwys tynnu panelwyr diffygiol a negeseuon e-bost oedd wedi bownsio'n ôl allan o'r sampl. At hynny, roedd systemau monitro parhaus y paneli'n tynnu sylw at ymddygiad a allai fod yn dwyllodrus ar sail gweithgareddau a phatrymau cwblhau arolwg, a chafodd y panelwyr a oedd yn ymddwyn felly eu tynnu allan o'r sampl.

Fel rheol, roedd gweithredwyr y paneli'n defnyddio amrywiaeth o gymhellion, yn dibynnu ar y wlad banel. Roedd y cymhellion dan sylw'n cynnwys: rhoddion i elusen ar ran y panelwyr, swîps, pwyntiau, cardiau rhodd, gwobrau, cyfleoedd i lawrlwytho cerddoriaeth, a thaliadau ag arian parod.

Cenhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd

Roedd Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025 yn mesur delwedd 50 o genhedloedd. Yn 2024, gostyngodd nifer y gwledydd a restrwyd o 60 i 50.

Mae rhestr y 50 o genhedloedd yn seiliedig ar bwysigrwydd gwleidyddol ac economaidd y gwledydd mewn geowleidyddiaeth fyd-eang a llif masnach, busnesau, pobl a gweithgareddau twristiaeth. Mae cynrychiolaeth ranbarthol ac, i ryw raddau, amrywiaeth systemau gwleidyddol ac economaidd yn cael eu hystyried i wneud yr astudiaeth yn wirioneddol fyd-eang. Mae buddiannau sefydliadau sy'n tanysgrifio yn cael eu hadlewyrchu hefyd wrth ddewis gwledydd y Mynegai.

Yn 2025, y gwledydd a gafodd eu tynnu oedd Slofacia, Indonesia, Periw, yr Aifft, De Affrica, yr Emiradau Arabaidd Unedig. Ychwanegwyd Bwlgaria, Latfia, Lithwania, Slofenia, Ynysoedd Philippines a Namibia.

Tabl 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, 50 o genhedloedd a sgoriwyd

Rhanbarth	Gwledydd
Gogledd America	Canada, Yr Unol Daleithiau

Gorllewin Ewrop	Awstria, Gwlad Belg, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Gwlad Groeg, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, Norwy, Portiwgal, Yr Alban, Sbaen, Sweden, Y Swistir, Y Deyrnas Unedig, Cymru
Canol a Dwyrain Ewrop	Bwlgaria, Tsiecia, Estonia, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Rwmania, Rwsia, Slofenia, Tŷrkiye, Wcráin
Ewrop	
Asia a'r Môr Tawel	Awstralia, Tsieina, India, Indonesia, Japan, Seland Newydd, Ynysoedd Philippines, Singapore, De Korea, Taiwan
America Ladin	Yr Ariannin, Brasil, Chile, Mecsico
Y Dwyrain Canol / Affrica	Israel, Kenya, Namibia, Palesteina, Saudi Arabia

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2025

Ym mhob gwlad banel, cafodd y rhestr o 50 o genhedloedd ei neilltuo ar hap i ymatebwyr. Rhoddodd yr ymatebwyr hyn sgôr i 10 gwlad yr un. Roedd hyn yn sicrhau bod 25 o wledydd blaenoriaethol (a oedd yn cynnwys tanysgrifwyr presennol yr MBC) yn cael tua 500 o sgoriau fesul gwlad banel a bod y 25 gwlad arall yn cael tua 300 o sgoriau fesul gwlad banel.

Data a chyfrifiadau'r Mynegai

Caiff data ei gyflwyno mewn dau fformat yn yr adroddiad hwn:

- Safle: Cafodd 50 o genhedloedd eu cynnwys ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025. Os caiff safle ei nodi ar gyfer Cymru mae'n cyfeirio at safle'r genedl rhwng 1 a 50, lle 1 yw'r safle uchaf, sy'n ei rhoi'n gyntaf o blith pob un o'r 50 cenedl a fesurwyd.
- Sgôr: Caiff sgôr y Mynegai ei chyflwyno fel cyfartaledd y chwe sgôr ar gyfer dimensiynau, allan o 100.

Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn gyffredinol

Mae safle a sgôr cyffredinol yn y Mynegai yn mesur delwedd ac enw da cyffredinol 50 o genhedloedd y Mynegai. Caiff safle a sgôr gyffredinol yn y Mynegai ei gyfrifo fel cyfartaledd o'r chwe dimensiwn a asesir yn yr arolwg a amlinellir isod: 'Allforion', 'Llywodraethu', 'Diwylliant', 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.

Cyfarwyddineb a ffafrioldeb

Ar ddechrau'r arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio pa mor dda roeddent yn teimlo eu bod yn adnabod 50 o genhedloedd y Mynegai. Mesurwyd cyfarwyddineb ar raddfa Likert 5 pwynt, gydag 1.0 yn sgôr cyfarwyddineb leiaf neu'r sgôr cyfarwyddineb isaf ("heb erioed

glywed amdani") a 5.0 yn sgôr cyfarwyddineb mwyaf neu uchaf ("yn dda iawn"). Caiff cyfarwyddineb ei gyflwyno fel canran yr ymatebwyr a oedd o leiaf yn gwybod rhywfaint am Gymru.

At hynny, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio eu ffafrioldeb tuag at 50 o genhedloedd y Mynegai. Cafodd ffafrioldeb ei fesur ar raddfa Likert 7 pwynt, lle 1.0 oedd eithriadol o anffafriol neu'r sgôr ffafrioldeb isaf, a lle 7.0 oedd eithriadol o ffafriol neu'r sgôr ffafrioldeb uchaf. Caiff lefelau ffafrioldeb tuag at Gymru eu cyflwyno fel y sgôr gymedrig allan o 7.0.

Dimensiynau a phriodoleddau

Mae'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn cynnwys chwe dimensiwn, ac mae'r rhain i gyd wedi'u pwysoli'n gyfartal ac yn cael eu defnyddio i gyfrifo sgorau a safleoedd cyffredinol y Mynegai. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion'; 'Llywodraethu'; 'Diwylliant'; 'Pobl'; 'Twristiaeth'; a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.

Caiff pob dimensiwn unigol ei gyfrifo gan ddefnyddio'r cyfartaledd o set o briodoleddau. Er enghraifft, y ffigyrau ar gyfer 'Allforion' yw cyfartaledd yr ymatebion i'r tri chwestiwn sy'n ymwneud ag 'allforion'. Ar lefel y dimensiynau, sgôr pob dimensiwn yw cyfartaledd y sgorau ar gyfer y datganiadau/cwestiynau ynghylch priodoleddau, wedi'i drosi'n raddfa o 1 i 100. Ceir disgrifiad o bob un o'r chwe dimensiwn a'u priodoleddau sylfaenol neu feysydd cwestiwn yn nhabl 3.

Defnyddiwyd rhwng tri a phump o briodoleddau i gyfrifo'r sgoriau ar gyfer pob dimensiwn (gweler tabl 3). Ymatebodd yr ymatebwyr i'r datganiadau ar gyfer pob priodoledd a fesurwyd ar raddfa Likert o 1.0 i 7.0, lle 1.0 oedd yr isaf a'r gwaethaf a 7.0 oedd yr uchaf a'r gorau (a 4.0 oedd y safle niwtral yn y canol). Er mwyn hwyluso darllenadwyedd ar draws y canfyddiadau o'r datganiadau priodoleddau unigol a'r sgôr gyffredinol wedi'i mynegeio ar gyfer pob dimensiwn, mae'r cyfartaleddau cymedrig o'r raddfa Likert 7 pwynt ar gyfer pob un o'r priodoleddau wedi cael eu trosi'n sgôr allan o 1 i 100, gan adlewyrchu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Ipsos i drosi sgoriau priodoleddau yn sgôr gyffredinol ar gyfer dimensiwn. Caiff y sgoriau trosi eu hamlinellu yn nhabl 4.

Tabl 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, amlinelliad o'r dimensiynau

Dimensiwn	**Y priodoleddau a fesurwyd**
Allforion	1) Barn yr ymatebwyr am gyfraniad cenedl at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg

	2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo'n well/yn waeth ynglŷn â phrynu cynnyrch/gwasanaethau o wybod eu bod yn dod o bob un o'r cenhedloedd 3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl
Llywodraethu	1) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest 2) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg 3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol 4) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd 5) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd
Diwylliant	1) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn rhagori ym maes chwaraeon 2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan bob cenedl dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog 3) A yw'r ymatebwyr yn ystyried bod pob cenedl yn lle diddorol/cyffrous ar gyfer diwylliant cyfoes megis cerddoriaeth, ffilmiau, celf a llenyddiaeth
Pobl	1) A oedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai pobl o bob cenedl yn estyn croeso cynnes iawn iddynt 2) A fyddai'r ymatebwyr yn hoffi cael person o bob cenedl yn ffrind agos iddynt

	3) Parodrwydd yr ymatebwyr i gyflogi pobl â chymwysterau da o bob cenedl
Twristiaeth	1) A fyddai'r ymatebwyr yn hoffi ymweld â chenedl pe na bai arian yn broblem 2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol 3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion 4) A yw'r ymatebwyr yn credu bod gan bob cenedl fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol
Mewnfudo a Buddsoddi	1) Parodrwydd yr ymatebwyr i fyw a gweithio am gyfnod sylweddol ym mhob cenedl 2) A yw'r ymatebwyr yn ystyried pob cenedl yn fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel 3) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol 4) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan bob cenedl fusnesau yr hoffent fuddsoddi ynddynt 5) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas

Tabl 4: trosi o raddfa Likert 7 pwynt i sgôr allan o 100

Graddfa Likert 7 pwynt	Sgôr wedi'i throsi, 1 i 100
1	1
2	17.5
3	34
4	50.5
5	67
6	83.5
7	100

Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol o 2025 mewn perthynas â'r canlynol:

- y Mynegai yn gyffredinol
- cyfarwyddineb a ffafrioldeb
- dimensiynau

Mae canlyniadau manylach sy'n ymwneud â'r priodoleddau i'w gweld yn y tablau cysylltiedig ond ni fyddant yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad ysgrifenedig hwn.

Ystyriaethau data

Newidiadau i'r arolwg dros amser

Rhwng 2021 a 2023, ehangodd y Mynegai o 50 gwlad i 60 gwlad. Wrth i fwy o genhedloedd gymryd rhan, cafodd mwy o oedolion eu cynnwys yn yr arolwg. Yn 2020, roedd oddeutu 20,000 o oedolion wedi cymryd rhan yn yr arolwg, o'i gymharu â 60,000 yn 2023. Yn 2024, dychwelodd y Mynegai i 50 o genhedloedd, gydag oddeutu 42,000 o oedolion yn cael eu holi. Wrth gymharu safleoedd dros amser, dylid cadw mewn cof fod y Mynegai wedi ehangu ac yna leihau dros y cyfnod hwn, oherwydd gellid priodoli newidiadau mewn safle yn rhannol o leiaf i'r ehangu hwn.

Mae hefyd yn bwysig nodi mai data 2023 yw'r holl ddata gan banel Rwsia yn 2024, gan fod sancsiynau rhyngwladol wedi atal y gallu i gynnal arolygon o fewn Ffederasiwn Rwsia.

Pwynt ychwanegol i'w nodi yw bod pecynnau tanysgrifio Cymru wedi newid dros amser, gan arwain at lefelau amrywiol o ddadansoddi a data ar gael. Yn 2020 a 2023, prynodd Llywodraeth Cymru danysgrifiad llawn i'r Mynegai. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru brynu tanysgrifiadau yn 2021 na 2022; felly, nid yw'r rhan fwyaf o ddata ar gyfer Cymru ar gael ar gyfer y blynyddoedd hyn. Yn 2024 2025, prynodd Cymru adroddiad ôl-weithredol sy'n golygu bod data'n cael ei gasglu'n ddiweddarach, o'i gymharu â'r rhai a brynodd danysgrifiad llawn. Mae'r broses sicrhau ansawdd hefyd yn wahanol rhwng y tanysgrifiadau. Mae'r data a gafwyd gan Anholt & Co ar gyfer y tanysgrifiad ôl-weithredol yn llai manwl na data tanysgrifiad llawn. Felly, mae'r gwaith o brosesu, sicrhau ansawdd a dadansoddi'r data eisoes wedi'i gwblhau gan y contractwyr ac nid gan Lywodraeth Cymru, fel y mae gyda'r tanysgrifiad llawn.

Ystyriaethau ehangach

Mae ystyriaethau ehangach hefyd yn dylanwadu ar y gwaith o ddadansoddi ac adrodd ar ganfyddiadau 2025:

- Dechreuodd Cymru gymryd rhan yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn 2020. Gan gofio hynny, dylai'r ymchwil gael ei hystyried yn ymchwil archwiliol. Mae'n cymryd amser i newid enw da rhywun.

- Mae'r Mynegai yn rhoi cipolwg ar ba mor gyfarwydd yw ymatebwyr â chenedl a'u canfyddiadau ohoni yn erbyn ystod eang o fesurau. Mae'r dadansoddiad yn darparu cyfres y gellir ei chyffredinoli o gasgliadau ynghylch lefelau ymwybyddiaeth fyd-eang a safbwyntiau er mwyn rhoi asesiad o enw da brand cenedl. Fodd bynnag, nid yw'r Mynegai yn archwilio pam y mae ymatebwyr yn teimlo felly nac yn archwilio pam y mae newidiadau i enw da yn digwydd dros sawl blwyddyn.

- Mae'r data'n dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cael mwy o gysylltiad â Chymru yn tueddu i fod â delwedd fwy cadarnhaol o'r genedl; ond nid yw'n bosibl canfod yn y Mynegai pryd y digwyddodd hyn.

- Nid yw sgôr uchel ar gyfer gwlad o reidrwydd yn arwydd o safle uchel ar gyfer y wlad honno, ac i'r gwrthwyneb. Mae'r safle'n rhoi gwybodaeth am yr enw da sydd gan wlad o'i gymharu â gwledydd eraill ac felly mae'n ymateb i newidiadau yn y sampl o wledydd tra nad yw'r sgôr absoliwt yn gwneud hynny. Dylai'r sgorau a'r safleoedd gael eu hystyried gyda'i gilydd, oherwydd yn unigol mae'n bosibl y byddant yn cyfleu negeseuon gwahanol am ganfyddiadau o Gymru.

- Mae'r dadansoddiad wedi'i seilio ar ddata cryno cyfanredol sy'n deillio o'r ymatebion ac mae'n bosibl y bydd anghysondebau â'r data crai oherwydd, er enghraifft, yr angen i dalgrynnu neu gyfansymio. Mae'r sgorau wedi'u talgrynnu i un lle degol.

- Mae'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn asesu enw da gwlad ar draws chwe dimensiwn, sef 'Allforion', 'Llywodraethu', 'Diwylliant', 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Mewnfudo a Buddsoddi'. Fodd bynnag, mae'r dimensiynau a fesurir yn gysyniadau cymhleth ac, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd eu terfynau'n gorgyffwrdd a/neu y byddant yn golygu rhywbeth gwahanol i'r ymatebwyr.

- Caiff canfyddiadau dimensiynau eu cyflwyno fel sgôr allan o 1 i 100, wedi'i chyfrifo fel cyfartaledd o'r sgoriau a roddwyd ar gyfer y cwestiynau sylfaenol.

- Wrth ddadansoddi newidiadau yn y gyfres amser, mae newidiadau llai o ran sgôr a safle yn aml yn gallu bod yn ddibwys yn ystadegol. Mae'n bwysig nodi na phrofwyd arwyddocâd unrhyw gynnydd neu ostyngiad a grybwyllir yn yr adroddiad hwn.

3. Canfyddiadau

Safle Cyffredinol

Yn 2025, cafodd Cymru ei sgôr Mynegai Brandiau Cenhedloedd uchaf, gan godi i 62.7 allan o 100. Er gwaethaf y gwelliant hwn yn y sgôr, gostyngodd safle cyffredinol Cymru i'r 25ain safle o'r 23ain safle yn 2024. Mae hyn yn parhau â'r patrwm a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, lle mae sgoriau absoliwt Cymru wedi aros yn sefydlog neu wedi gwella ychydig, tra bod ei safle wedi symud o fewn band cul.

Rhwng 2020 a 2025, mae sefyllfa Cymru wedi aros yn weddol sefydlog, gan symud o'r 21ain safle yn 2020 i'r 22ain safle yn 2021 a 2022, 23ain safle yn 2023 a 2024, ac yna i'r 25ain safle yn 2025. Yn gyffredinol, mae perfformiad Mynegai Cymru yn dangos cysondeb dros amser, gydag ychydig o amrywiad o un flwyddyn i'r llall yn y sgorau a'r safleoedd.

Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng safleoedd a sgorau. Nid yw newidiadau mewn safle o reidrwydd yn adlewyrchu newidiadau mewn sgorau, ac i'r gwrthwyneb, a gall safleoedd a sgorau gyflwyno negeseuon gwahanol am enw da Cymru. Felly, mae'n bwysig ystyried sgorau a safleoedd gyda'i gilydd er mwyn deall y casgliadau cyffredinol.

Dylid nodi hefyd mai 50 o genhedloedd oedd wedi cymryd rhan yn y Mynegai yn 2020. O 2021 ymlaen, mae 60 o genhedloedd wedi cymryd rhan bob blwyddyn ac yn 2024 dychwelwyd i 50 o genhedloedd. Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol, mae newid enw da yn cymryd amser hir. Dylid ystyried newidiadau mewn safle yn y cyd-destun hwn.

Tabl 5: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, safleoedd a sgoriau cyffredinol Cymru dros amser

Mesur	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Safle	21	22	22	23	23	25
Sgôr	59.8	62.5	61.9	62.4	62.0	62.7

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2025

Enw da Cymru yn y Gwledydd Panel Craidd


Mae Ffigur 1 yn dangos safleoedd cyffredinol yn y Mynegai a roddwyd i Gymru gan bob un o'r gwledydd panel craidd o 2023 hyd at 2025. Ar gyfartaledd, Gorllewin Ewrop a Gogledd

America oedd y rhanbarthau lle'r oedd enw da Cymru gryfaf o hyd, lle cafodd Cymru nifer o'i safleoedd uchaf.

Yn 2025, daeth y safleoedd cryfaf ar gyfer Cymru gan y Deyrnas Unedig (13ed), yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia (i gyd yn gosod Cymru yn safle 21ain), Sweden, yr Eidal a'r Almaen (i gyd yn gosod Cymru yn safle 22ain), sy'n dangos bod canfyddiadau'n parhau i fod yn fwyaf cadarnhaol ymysg gwledydd sy'n cyd-fynd yn ddiwylliannol ac yn economaidd.

Roedd newidiadau amlwg mewn sawl safle ar lefel gwlad rhwng 2024 a 2025. Gwelwyd y gwelliannau mwyaf o Rwsia, lle symudodd Cymru o'r 41ain safle yn 2024 i 36ain yn 2025, ac o Dde Affrica, a gynyddodd o safle 28ain i 24ain. Ar y llaw arall, gwelwyd y gostyngiadau mwyaf o Ffrainc (16ed i 23ain), Awstralia (17ed i 21ain) ac India (33ain i 37ain). Dylid dehongli'r newidiadau hyn yn ofalus, gan y gall symudiad o un flwyddyn i'r llall adlewyrchu newidiadau mewn perfformiad cymharol yn hytrach na pherfformiad absoliwt, yn enwedig mewn mynegai cystadleuol lle mae llawer o wledydd yn dangos gwelliannau ar yr un pryd.

Ffigur 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, safle cyffredinol Cymru yn ôl gwledydd panel craidd



Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 i 2025

Mae Ffigur 2 yn dangos y sgoriau cyffredinol yn y Mynegai a roddwyd i Gymru gan bob un o'r gwledydd panel craidd o 2023 hyd at 2025. Arhosodd y sgoriau'n gymharol sefydlog rhwng 2024 a 2025, er bod nifer o wledydd yn dangos cynnydd neu ostyngiad bach.

Yn 2025, y gwledydd panel craidd a roddodd y sgoriau uchaf i Gymru oedd y Deyrnas Unedig (67.5), De Affrica (66.9), Awstralia (66.5) a Chanada (65.2), gan ddangos canfyddiadau cryf cyson ar draws y marchnadoedd hyn.


Mae rhai newidiadau nodedig o un flwyddyn i'r llall i'w gweld rhwng 2024 a 2025. Daeth y cynnydd mwyaf mewn sgoriau o Tsieina (60.3 i 64.6), Japan (52.2 i 55.5), Awstralia (63.8 i

66.5), a'r Ariannin (61.0 i 63.7). Gellir gweld cynnydd llai hefyd o Wlad Pwyl (60.7 i 63.1) a Thwrci (59.5 i 61.8).

Ar y llaw arall, cofnododd nifer o wledydd ostyngiad yn eu sgoriau ar gyfer Cymru rhwng 2024 a 2025. Daeth y gostyngiad mwyaf o India, gan ostwng o 69.4 yn 2024 i 63.0 yn 2025, ac yna Saudi Arabia, a syrthiodd o 63.1 i 60.6.

Yn gyffredinol, er bod sgoriau gwledydd unigol yn amrywio, mae'r patrwm cyffredinol yn aros yn sefydlog, gyda'r rhan fwyaf o wledydd panel yn parhau i weld Cymru'n gadarnhaol ac yn ei sgorio o fewn ystod gymharol gul.

Ffigur 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, sgôr cyffredinol Cymru yn ôl gwlad banel graidd



Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 i 2025

Ffafrioldeb

Roedd arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025 hefyd wedi gofyn i ymatebwyr sgorio eu ffafrioldeb tuag at Gymru gan ddefnyddio graddfa o 1.0 i 7.0, gydag 1.0 yn golygu eithriadol o anffafriol a 7.0 yn golygu eithriadol o ffafriol. Cyflwynir ffafrioldeb gyffredinol fel y sgôr gymedrig ar y raddfa ffafrioldeb.

Yn 2025, cofnododd Cymru sgôr ffafrioldeb o 4.6 allan o 7, gostyngiad bach o 4.7 yn 2024. Mae'r gostyngiad bach hwn o un flwyddyn i'r llall yn adlewyrchu parhad y patrwm tymor hir lle mae sgoriau ffafrioldeb Cymru wedi aros yn gymharol gyson, gan amrywio ychydig yn unig dros y cyfnod o chwe blynedd.

Rhwng 2020 a 2025, mae safleoedd ffafrioldeb wedi aros yn weddol sefydlog yn yr un modd. Roedd Cymru yn safle 21ain yn 2020, 23ain yn 2023, 24ain yn 2024, ac yn safle 25ain yn 2025, gan ddangos symudiad cymedrol o fewn ystod gul. Yn gyffredinol, mae perfformiad Cymru o ran ffafrioldeb yn dangos canfyddiadau cyson yn rhyngwladol, gydag amrywiad cyfyngedig dros amser mewn sgoriau a safleoedd.

Mae'r tabl isod yn dangos ffafrioldeb tuag at Gymru rhwng 2020 a 2025.

Tabl 6: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2025, sgôr a safle Cymru o ran ffafrioldeb dros amser

Mesur	2020	2023	2024	2025
Sgôr gymedrig o ran ffafrioldeb	4.7	4.8	4.7	4.6
Safle	21	23	24	25


Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2025

Mae Ffigur 3 yn dangos y lefelau ffafrioldeb a sgoriwyd tuag at Gymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd yn 2025. Daeth y sgoriau cymedrig uchaf ar gyfer ffafrioldeb gan y Deyrnas Unedig (5.4), yr Eidal (5.0), Awstralia (5.0) Canada (4.9), a'r Unol Daleithiau (4.9), gan ddangos canfyddiadau cadarnhaol cyson yn y marchnadoedd hyn. Daeth sgorau cymedrig isaf Cymru ar gyfer ffafrioldeb o Saudi Arabia (4.1), Japan (4.3), India (4.3), a De Korea (4.3). Fodd bynnag, roedd pob sgôr yn dal yn uwch na phwynt canol niwtral y raddfa, gan awgrymu agweddau cadarnhaol ar y cyfan ar draws pob gwlad banel.

Roedd rhai newidiadau amlwg rhwng 2024 a 2025. Daeth y gostyngiadau mwyaf ar gyfer ffafrioldeb o India, gan ostwng o 4.8 yn 2024 i 4.3 yn 2025, ac yna Saudi Arabia, gan ostwng o 4.5 i 4.1. I'r gwrthwyneb, cofnodwyd cynnydd bach ar gyfer Tsieina, gan godi o 4.5 i 4.7.

Yn gyffredinol, er bod sgoriau ffafrioldeb yn amrywio ar draws gwledydd, roedd y rhan fwyaf yn aros o fewn band cul, gan ddangos teimlad cadarnhaol parhaus tuag at Gymru ar draws y panel rhyngwladol.

Ffigur 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, sgôr a safle Cymru o ran ffafrioldeb ar draws yr 20 o wledydd panel craidd




Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 i 2025

Mae Ffigur 4 yn dangos y lefelau ffafrioldeb a sgoriwyd tuag at Gymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd yn 2025. Daeth y safleoedd uchaf gan y Deyrnas Unedig (6ed), yr Unol Daleithiau (20fed), Awstralia (21ain), Sweden, yr Eidal, yr Almaen a Chanada (pob un o'r 22ain), gan ddangos ffafriaeth gymharol gryf yn y marchnadoedd hyn. Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd isaf gan India (40ed), Saudi Arabia (40ed) a Rwsia (37ed). Mae hyn yn dangos pwysigrwydd dehongli sgoriau a safleoedd gyda'i gilydd: er gwaethaf y sgoriau ffafrioldeb isel gan y gwledydd hyn, roedd eu sgoriau ffafrioldeb yn dal yn uwch na'r pwynt canol niwtral.

Roedd rhai gwahaniaethau eithaf amlwg mewn lefelau ffafrioldeb a sgoriwyd rhwng 2024 a 2025. Gwelwyd y cynnydd mwyaf gan Rwsia, gan wella o 41ed yn 2024 i 37ed yn 2025, a De Affrica, gan godi o 29ain i 26ain. Gwelodd nifer o wledydd ostyngiad yn eu safleoedd, yn fwyaf nodedig Awstralia (o'r 15fed i'r 21ain) a Saudi Arabia (o'r 36ed i'r 40ed), yn ogystal â De Korea (o'r 28ain i'r 32ain). Mae'r newidiadau hyn yn cael eu sbarduno'n bennaf gan amrywiadau o un flwyddyn i'r llall mewn perfformiad cymharol rhwng gwledydd, yn hytrach na nodi newidiadau mawr mewn canfyddiadau o Gymru.

Ffigur 4: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, safle Cymru o ran ffafrioldeb ar draws yr 20 o wledydd panel craidd



Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 a 2025

Cyfarwyddineb

Yn 2025, gostyngodd sgôr Cymru o ran cyfarwyddineb o 53%, i lawr o 56% yn 2024. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad cymedrol yn dilyn y lefelau uwch a gofnodwyd yn 2023 a 2024, ac mae'n gosod Cymru yn safle 42ain yn gyffredinol yn 2025 o'i gymharu â 44ain yn 2024.

Rhwng 2020 a 2025, mae cyfarwyddineb wedi dangos mwy o amrywioldeb na mesurau eraill y Mynegai. Mae'r safleoedd wedi symud o safle 45ain yn 2020 i safle 48ain yn 2023, safle 44ain yn 2024, a safle 42ain yn 2025. Er bod y symudiadau hyn yn dangos rhywfaint o amrywiad mewn ymwybyddiaeth o Gymru, mae'r duedd gyffredinol yn parhau i fod yn weddol gyfarwydd, gyda sgoriau'n aros o fewn band cymharol gul dros y cyfnod o chwe blynedd.

Tabl 7: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2025, sgôr a safle Cymru o ran cyfarwyddineb dros amser


Mesur	2020	2023	2024	2025
% yn gyfarwydd â Chymru	53%	60%	56%	53%
Safle	45	48	44	42

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2025

Mae Ffigur 5 yn dangos y lefelau cyfarwyddineb â Chymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd yn 2025. Roedd cyfarwyddineb â Chymru ar ei uchaf yn y Deyrnas Unedig (92%), ac yna Gwlad Pwyl (70%), Sweden (69%), ac Awstralia (67%). Cofnodwyd y lefelau isaf o gyfarwyddineb yn Ne Korea (26%), Japan (34%), Mecsico (37%), a Brasil (40%), sy'n dangos ymwybyddiaeth fwy cyfyngedig o Gymru yn y marchnadoedd hyn o'i chymharu ag Ewrop a Gogledd America.

O'i gymharu â 2024, roedd lefelau cyfarwyddineb yn dangos newidiadau cymysg o un flwyddyn i'r llall. Cynyddodd cyfarwyddineb mewn sawl gwlad, yn fwyaf nodedig Japan (o 29% i 34%), De Affrica (o 51% i 54%), a Chanada (o 60% i 63%), gan awgrymu bod ymwybyddiaeth o Gymru yn cynyddu yn y marchnadoedd hyn. Fodd bynnag, gostyngodd cyfarwyddineb mewn nifer o wledydd, gyda'r gostyngiadau mwyaf i'w gweld ym Mecsico (o 54% i 37%), India (o 57% i 43%), a Thwrci (o 62% i 53%). Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae sgoriau cyfarwyddineb cyffredinol yn dal o fewn ystod weddol debyg i'r blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu'r amrywiaeth barhaus mewn ymwybyddiaeth ar draws marchnadoedd byd-eang.

Ffigur 5: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i 2025, cyfarwyddineb â Chymru yn ôl gwlad banel



Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2023 i 2025


Perfformiad dimensiynau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd

Mae'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn cynnwys chwe dimensiwn, ac mae'r rhain i gyd wedi'u pwysoli'n gyfartal ac yn cael eu defnyddio i gyfrifo sgorau a safleoedd cyffredinol y Mynegai. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion'; 'Llywodraethu'; 'Diwylliant'; 'Pobl'; 'Twristiaeth'; a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.

Mae sgoriau Cymru ar draws pob un o'r chwe dimensiwn yn 2025 i'w gweld yn ffigur 6. Mae safleoedd Cymru ar draws pob un o'r chwe dimensiwn yn 2025 i'w gweld yn ffigur 8.

Mae Ffigur 6 yn dangos bod Cymru wedi cael sgoriau gweddol gyson ar draws pob dimensiwn yn 2025. Roedd ei sgôr uchaf ar gyfer y dimensiwn 'Twristiaeth' (68.1) ac yna 'Pobl' (65.9). Roedd sgôr isaf Cymru ar gyfer dimensiwn Allforion (56.6).

Ffigur 6: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, sgoriau dimensiynau a chyffredinol y Mynegai ar gyfer Cymru




Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2025

Mae Ffigur 7 yn dangos sgoriau Cymru ar gyfer y dimensiynau rhwng 2020 a 2025. Dros y cyfnod hwn, Pobl, Twristiaeth a Llywodraethu yw'r dimensiynau sy'n cael y sgoriau uchaf ar gyfer Cymru, gan gael y sgoriau uchaf yn 2020, 2023, 2024 ac eto yn 2025. Parhaodd Cymru i gael ei sgôr isaf ar gyfer y dimensiwn Allforion ym mhob blwyddyn o'r gyfres, gan gynnwys 2025.

Gan edrych ar dueddiadau dros amser, mae'n ymddangos bod y sgoriau ar eu huchaf yn 2023, gyda'r sgoriau'n cynyddu ar draws pob dimensiwn o'i gymharu â 2020. Yn 2024, roedd y sgoriau ar draws pob dimensiwn naill ai wedi gostwng ychydig neu wedi aros yn weddol sefydlog o'i gymharu â 2023, gyda'r gostyngiadau mwyaf wedi'u cofnodi ar gyfer Allforion, Diwylliant a Phobl. Yn 2025, cynyddodd y sgoriau eto ar gyfer y rhan fwyaf o'r dimensiynau, gan gynnwys cynnydd nodedig mewn Twristiaeth, Diwylliant a Phobl, er mai dim ond newidiadau ymylol a welodd Allforio a Llywodraethu. Yn gyffredinol, mae'r holl sgoriau dimensiwn yn 2025 yn dal yn uwch nag yn 2020, gan ddangos tuedd tymor hir cadarnhaol ar y cyfan, er gwaethaf amrywiadau o un flwyddyn i'r llall.

Ffigur 7: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2025, sgôr a safle cyffredinol Cymru yn y Mynegai




Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2025

Cafodd Cymru hefyd ei gosod mewn safleoedd cyson ar draws y dimensiynau yn 2025, yn amrywio o'r 21ain safle i'r 28ain safle allan o 50 o genhedloedd. Yn 2025, roedd Cymru wedi'i gosod yn hanner uchaf gwledydd y Mynegai ar draws tri dimensiwn - Llywodraethu, Pobl, a Mewnfudo a Buddsoddi. Roedd Allforion, Diwylliant a Thwristiaeth i gyd ychydig yn is na'r pwynt canol.

Mae Ffigur 8 yn dangos mai dimensiynau uchaf Cymru yn 2025 oedd Llywodraethu (21ain), ac yna Mewnfudo a Buddsoddi (22ain) a Phobl (25ain). Cafodd Cymru ei gosod yn y safleoedd isaf ar gyfer y dimensiynau Allforion, Diwylliant a Thwristiaeth, i gyd yn yr 28ain safle yn 2025.

Ffigur 8: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, safleoedd cyffredinol Cymru ar gyfer dimensiynau ac yn y Mynegai yn gyffredinol



Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2025


Isod, caiff safleoedd Cymru eu cymharu ar gyfer y dimensiynau rhwng 2020 a 2025. Parhaodd Cymru i gael ei safle uchaf ar gyfer yr un dimensiynau ar draws y rhan fwyaf o flynyddoedd, gyda Llywodraethu, Mewnfudo a Buddsoddi, a Phobl yn parhau i fod yr ardaloedd sy'n perfformio orau drwy gydol 2020, 2023, 2024 ac eto yn 2025. Yn yr un modd, roedd Diwylliant yn parhau i fod yn un o ddimensiynau â'r safle isaf i Gymru ar draws y cyfnod, gydag Allforion a Thwristiaeth yn ymuno yn 2025, pob un yn yr 28ain safle.

Mae tueddiadau yn y data yn awgrymu bod safleoedd ar draws y rhan fwyaf o ddimensiynau naill ai wedi aros yr un fath neu wedi gwaethygu ychydig rhwng 2020 a 2023, ar wahân i Ddiwylliant a oedd wedi gwella yn ystod y cyfnod hwn. Yn 2024, gwelodd sawl dimensiwn welliannau cymedrol, yn enwedig Twristiaeth, cyn i safleoedd ostwng eto ar gyfer pob dimensiwn yn 2025.

Wrth edrych ar draws yr holl flynyddoedd, gellir gweld bod y gwelliannau mwyaf yn parhau ar gyfer Diwylliant a gynyddodd o safle 29ain yn 2020 i 27ain yn 2024, cyn gostwng ychydig i 28ain yn 2025. Gwelwyd gwelliannau llai hefyd ym maes Twristiaeth, a symudodd o'r 25ain yn 2020 i'r 24ain yn 2024 cyn gostwng i'r 28ain yn 2025. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r symudiadau o ran safle hyn yn gwrthgyferbynnu â thueddiadau sgorio, lle gwelodd y rhan

fwyaf o ddimensiynau gynnydd yn 2023 a 2025. Mae hyn eto'n tanlinellu pwysigrwydd ystyried sgoriau a safleoedd gyda'i gilydd wrth ddehongli canlyniadau'r Mynegai.

Ffigur 9: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 i 2025, safleoedd Cymru ar gyfer dimensiynau ac yn y Mynegai yn gyffredinol



Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2020 i 2025

Dimensiynau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn ôl gwlad

Cynhaliwyd dadansoddiad pellach i asesu'r sgoriau a'r safleoedd ar gyfer pob dimensiwn fesul gwlad banel graidd, gyda'r sgoriau'n cael eu cyflwyno yn Nhabl 8 a'r safleoedd yn Nhabl 9. Er bod y canlyniadau'n amrywio ar draws gwledydd a dimensiynau, gellir nodi nifer o batrymau cyson yn nata 2025. Rhoddodd y Deyrnas Unedig, Canada ac Awstralia rai o'i sgorau uchaf i Gymru ar draws sawl dimensiwn, gan gynnwys y Mynegai yn gyffredinol, Llywodraethu, Pobl a Thwristiaeth. I'r gwrthwyneb, Japan, De Korea a Rwsia a roddodd rai o sgorau a safleoedd isaf Cymru ar draws nifer o ddimensiynau, gan gynnwys Allforion, Diwylliant a Phobl.

Mae'r canlyniadau hyn yn atgyfnerthu'r patrwm daearyddol ehangach a welir ar draws y Mynegai, gyda Chymru'n perfformio'n gryfach mewn marchnadoedd lle gallai cysylltiadau diwylliannol, economaidd neu hanesyddol fod yn gryfach, ac yn cael sgoriau is mewn rhanbarthau lle mae cyfarwyddineb cyffredinol â Chymru'n is.

Tabl 8: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, sgoriau dimensiwn ar gyfer Cymru yn ôl gwlad

	Allforion	Llywodraethu	Diwylliant	Pobl	Twristiaeth	Mewnfudo/Buddsoddi
Cyfanswm	**56.6**	**62.4**	**61.9**	**65.9**	**68.1**	**61.2**
Ariannin	57.2	61.1	61.7	67.6	70.7	64.2
Awstralia	57.4	65.8	65.5	73.0	73.1	64.0
Brasil	59.9	64.0	61.8	66.9	70.6	63.9
Canada	57.2	64.7	63.4	70.7	71.6	63.5
Tsieina	63.2	64.9	63.5	65.6	66.2	64.5
Ffrainc	56.3	62.0	61.3	66.6	67.6	57.8
Yr Almaen	55.1	62.6	59.1	66.5	68.7	55.9
India	56.9	62.3	63.8	64.4	66.2	64.6
Yr Eidal	57.2	64.6	60.4	67.2	70.9	62.3
Japan	52.6	56.6	56.7	57.9	58.5	50.9
Mecsico	57.5	62.7	62.5	68.9	70.8	65.6
Gwlad Pwyl	55.9	63.2	60.8	66.3	70.6	62.0
Rwsia	51.7	53.5	58.7	55.1	61.7	52.5
Saudi Arabia	55.7	61.5	61.8	61.6	63.3	59.5
De Affrica	57.0	65.9	67.5	70.1	72.3	68.7
De Korea	51.1	58.7	56.7	56.5	59.7	55.4
Sweden	54.2	62.3	59.1	68.5	68.2	58.7
Türkiye	56.4	60.9	61.5	63.0	67.0	62.1
Y Deyrnas Unedig	61.2	66.5	66.9	72.2	73.3	65.1
Yr Unol Daleithiau	58.2	64.5	64.1	68.0	69.1	61.9

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2025

Yn yr un modd, mae'r safleoedd yn gymharol gymysg ar gyfer pob dimensiwn yn 2025. Er enghraifft, mae safleoedd ar gyfer Allforion yn amrywio'n fawr o'r 17eg i'r 43ain, gan dynnu sylw at amrywiad sylweddol yn y ffordd y mae gwahanol wledydd yn asesu perfformiad Cymru yn y maes hwn. Er gwaethaf yr amrywiad hwn, mae sawl patrwm cyson yn dod i'r amlwg. Parhaodd Awstralia, Canada a'r Deyrnas Unedig i roi rhai o'i safleoedd uchaf i Gymru ar draws sawl dimensiwn, gan adlewyrchu canfyddiadau cadarnhaol yn gyffredinol yn y marchnadoedd hyn. I'r gwrthwyneb, cafodd Cymru rai o'i safleoedd isaf ar draws nifer o ddimensiynau gan Rwsia a Saudi Arabia, gan adlewyrchu'r sgoriau is a welwyd ar gyfer y gwledydd hyn ac adlewyrchu ffafrioldeb neu gyfarwyddineb mwy cyfyngedig.

Tabl 9: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2025, safleoedd dimensiwn ar gyfer Cymru yn ôl gwlad

	Allforion	Llywodraethu	Diwylliant	Pobl	Twristiaeth	Mewnfudo/Buddsoddi
Cyfanswm	**28**	**21**	**28**	**25**	**28**	**22**
Ariannin	32	24	30	27	29	23
Awstralia	26	18	25	16	20	19
Brasil	28	22	29	30	26	23
Canada	27	19	28	19	22	18
Tsieina	32	33	36	32	32	31
Ffrainc	27	21	25	23	27	21
Yr Almaen	26	21	28	23	27	22
India	43	41	39	36	37	35
Yr Eidal	26	18	21	17	22	21
Japan	23	22	25	25	28	21
Mecsico	33	25	36	32	31	28
Gwlad Pwyl	29	24	26	27	27	23
Rwsia	36	32	32	38	39	27
Saudi Arabia	39	34	39	35	40	33
De Affrica	29	23	22	23	26	20
De Korea	30	27	31	29	33	28
Sweden	26	19	27	21	25	21
Türkiye	31	26	30	32	35	28
Y Deyrnas Unedig	17	16	12	9	14	13
Yr Unol Daleithiau	25	18	23	20	21	18

Ffynhonnell: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt, 2025

4. Casgliadau

Yn 2025, cymerodd Cymru ran ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt am y chweched flwyddyn yn olynol. Mae'r data'n rhoi trosolwg cadarn a chymaradwy o ymwybyddiaeth fyd-eang o Gymru, ac agweddau tuag ati, yn seiliedig ar gipolwg o safbwyntiau ar draws dimensiynau a phriodoleddau craidd y mynegai.

Roedd Cymru yn y 25ain safle yn gyffredinol allan o 50 o wledydd yn 2025, gyda sgôr gyffredinol o 62.7, ei sgôr uchaf hyd yma, er gwaethaf gostyngiad bach yn ei safle o 23ain yn 2024. Roedd y gwledydd a barhaodd i fod yn uwch na Chymru yn ddemocratiaethau incwm uchel yn bennaf, yn enwedig yng Ngorllewin Ewrop a Gogledd America. Mae sefyllfa fyd-eang Cymru wedi aros yn weddol sefydlog dros amser, gan symud yn gymedrol o'r 21ain safle yn 2020 i'r 22ain a'r 25ain yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r sgoriau hefyd wedi aros yn gymharol gyson, gyda 2025 yn dangos gwelliant cynyddrannol.

Cafodd Cymru sgôr ffafrioldeb uwch na'r cyfartaledd yn 2025, gyda sgôr gymedrig o 4.6 ar raddfa o 1.0 i 7.0 pwynt. Roedd ffafrioldeb ar ei gryfaf o hyd ymysg gwledydd Saesneg eu hiaith, yn enwedig y Deyrnas Unedig, Awstralia a Chanada, ac roedd yn parhau i gyd-fynd yn agos â lefelau cyfarwyddineb. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy cyfarwydd â Chymru yn tueddu i'w ystyried yn fwy ffafriol. Er bod ffafrioldeb wedi aros yn sefydlog dros y cyfnod o chwe blynedd (yn amrywio o 4.6 i 4.8), llithrodd safle Cymru o ran ffafrioldeb ychydig o 21ain safle yn 2020 i 25ain yn 2025, gan adlewyrchu gwelliannau cryfach gan wledydd eraill yn hytrach na dirywiad mewn perfformiad absoliwt.

Yn 2025, dywedodd 53% o'r ymatebwyr eu bod o leiaf yn weddol gyfarwydd â Chymru, gan roi sgôr gyfarwyddineb o 44ain o blith 50 o genhedloedd. Er bod hyn yn adlewyrchu gostyngiad bach yn y sgôr ers 2024, roedd safle Cymru wedi gwella dau le oherwydd newidiadau cymharol ymysg gwledydd cymharol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cyfarwyddineb ar ei uchaf yn y Deyrnas Unedig, gogledd Ewrop a Gogledd America, ac ar ei isaf mewn rhannau o Asia ac America Ladin.

Ar draws chwe dimensiwn y Mynegai, cafodd Cymru ei gosod mewn safleoedd cyson yn gyffredinol unwaith eto yn 2025, gan amrywio o'r 21ain safle i'r 28ain safle. Parhaodd Cymru i gael ei gosod yn yr hanner uchaf o wledydd ar gyfer sawl dimensiwn, gyda'i pherfformiad cryfaf ym meysydd Llywodraethu (21ain), Mewnfudo a Buddsoddi (22ain) a Phobl (25ain). Roedd ei safleoedd isaf yn 2025 ar gyfer Allforion, Diwylliant a Thwristiaeth (i gyd ar yr 28ain safle), er bod y rhain yn dal i gyd-fynd yn fras â phatrymau tymor hir.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau 2025 yn atgyfnerthu sefydlogrwydd tymor hir enw da rhyngwladol Cymru. Er bod rhai newidiadau mewn cyfarwyddineb a safleoedd ar draws marchnadoedd unigol, mae'r canfyddiadau sylfaenol o Gymru yn dal yn gyson gadarnhaol, gyda gwelliannau graddol mewn sawl sgôr a pherfformiad cryf parhaus o'i gymharu â'r garfan fyd-eang. Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd dehongli sgoriau a safleoedd gyda'i gilydd, gan fod newidiadau'n aml yn adlewyrchu symudiadau mewn perfformiad gwledydd eraill yn hytrach na newidiadau sylweddol mewn agweddau tuag at Gymru ei hun.